CYSTADLEUAETH PROSIECT

“LLEIHAU TANAU GLASWELLT BWRIADOL”

Canllawiau i Athrawon

CANLLAWIAU I ATHRAWON

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithio tuag at adeiladu partneriaethau mwy cadarnhaol a chryfach ar draws De Cymru. Yn Nhonypandy un o nodau'r gwaith partneriaeth fydd creu cymuned fwy diogel drwy leihau tanau glaswellt a thanau mynydd bwriadol, sy'n costio miliynau o bunnoedd i drethdalwyr a'r economi bob blwyddyn.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyflwyno 'prosiect lleihau tanau glaswellt bwriadol' yn Nhonypandy a fydd yn cynnwys cynnal gweithgareddau gwyro ac ymgysylltu niferus gyda phobl ifanc Tonypandy yn ystod mis Mawrth ag Ebrill 2010.

YR HYN SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD!

Hoffwn wahodd disgyblion Coleg Cymunedol Tonypandy i gynllunio logo neu slogan a fydd yn dod yn 'frand ymbarél' i'r prosiect a bydd yn cael ei ddefnyddio ar holl ddeunyddiau'r prosiect ac wrth gyfathrebu gan gynnwys y wefan, taflenni, pposteri a chrysau T - gan ei wneud yn hynod weledol ar draws Tonypandy.

Bydd y logo/slogan yn creu ymwybyddiaeth o'r prosiect a bydd yn symbol parhaus o'r hyn mae'r prosiect a'r Gwasanaeth yn ceisio cyflawni:

- lleihau perygl tanau glaswellt a thanau mynydd bwriadol yn lledu i eiddo a pheryglu bywydau
- arbed miliynau o bunnoedd i drethdalwyr a'r economi
- gwneud Tonypandy yn le mwy deniadol ar gyfer busnesau newydd
- gwella tirwedd Tonypandy

Rydym yn edrych am logo a slogan sy'n fyr, yn hawdd i'w cofio ac yn denu sylw pobl. Enghreifftiau fyddai logo Nike ynghyd â'r slogan 'just do it' a logo McDonalds a'r slogan 'I'm loving it'. Mae'r rhain yn fyr, yn hawdd i'w cofio ac yn cael eu hadnabod ar unwaith.

SUT I GYMRYD RHAN

Yn y pecyn hwn rydym wedi cynnwys:

- ffurflenni cais ar gyfer y gystadleuaeth
- canllawiau i fyfyrwyr a manylion cyswllt

Dylid rhoi'r ffurflenni cais a chanllawiau i fyfyrwyr cyn gwyliau'r Nadolig. Dylai myfyrwyr roi eu ceisiadau llawn yn y blwch yn nerbynfa'r ysgol erbyn **DYDD GWENER 15 IONAWR**.

GWYBODAETH I FYFYRWYR - SUT I GYMRYD RHAN!

Wyt ti am gael y cyfle i weld rhywbeth yr wyt ti wedi'i gynllunio ar bosteri, crysau T, taflenni a phethau eraill ac ennill gwerth **£200 O DOCYNNAU I'W GWARIO YN ARGOS?** Os mai 'ydw' yw dy ateb, dyma'r gystadleuaeth i ti!

Hoffwn dy wahodd i gynllunio logo neu slogan a fydd yn cael ei ddefnyddio ar ein holl ddeunyddiau gweithgaredd gan gynnwys gwefannau, taflenni, posteri a chrysau T.

Os wyt ti'n credu fod gen ti'r dychymyg i greu logo neu slogan sy'n fyr, yn hawdd i'w gofio ac yn denu sylw pobl yna gofyn i dy athro am sut i gymryd rhan neu lawrlwytha un o www.decymru-tan.gov.uk. Defnyddia'r canllawiau isod wrth lenwi'r ffurflen.

SUT I GYMRYD RHAN

1. Defnyddia'r blwch gwyn dros y dudalen i nodi dy logo a dy slogan.
2. Rho dy ffurflen gais lawn i dy athro neu ei rhoi yn y blwch yn nerbynfa'r ysgol erbyn **DYDD GWENER 15 IONAWR**
3. Rho dy enw ac enw dy athro - os wyt ti'n ennill mae angen i ni wybod pwy wyt ti!
4. I gael mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth anfon e-bost deliberategrassfires@southwales-fire.gov.uk neu fynd i www.decymru-tan.gov.uk am fwy o wybodaeth.

Dim ond disgyblion Tonypandy sy'n cael cynnig y gystadleuaeth hon ac felly mae'n gyfle gwych i fyfyrwyr wneud cyfraniad sylweddol tuag at wneud eu cymuned yn lle mwy diogel i fyw. Yn ychwanegol, bydd y sawl sy'n ennill yn gweld ei logo neu cynllun ar draws Tonypandy ac yn **DERBYN GWERTH £200 O DOCYNNAU I'W GWARIO YN ARGOS!**